**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 18fed Mai 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **PAUL CLAYDON,**<br>**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL**<br>**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi adroddiad cynnydd i'r Aelodau am ddatblygiad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas â'r Awdurdodau Tân ac Achub. |

1. **CYFLWYNIAD**

Cyhoeddir y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan y Cynulliad dan ei bwerau i ddynodi materion y mae'n rhaid i awdurdod eu cynnwys yn ei gynllun perfformiad gwerth gorau (Adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999).

2. **Y CYNNYDD HYD YN HYN**

Yn dilyn yr adolygiad o'r cyfarwyddyd ar y Rhaglen y llynedd, mae'r Cynulliad bellach wedi llunio drafft gweithio o'r Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella mewn perthynas â'r Awdurdodau Tân ac Achub wrth baratoi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r drafft gweithio hwn yn parhau i gael ei newid mewn ymateb i fewnbwn gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen, Grŵp Datblygu'r Rhaglen a Grŵp Dangosyddion Perfformiad y Rhaglen.

Ni chafwyd dyddiad ar gyfer cyflwyno drafft at ddiben ymgynghori, ond y disgwyl yw y bydd y Rhaglen derfynol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn dod i rym yn Ebrill 2007.

3 **Y GOBLYGIADAU AR GYNLLUNIO**

Mae'r camau cynllunio ac adrodd a ddisgrifir yn y drafft gweithio o'r cyfarwyddyd ar y Rhaglen ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi eu cynllunio i gyd-fynd â'r rhai sydd yn y cyfarwyddyd ar Gynllunio Lleihau Risg, gyda'r bwriad o leihau'r baich cyffredinol sydd ar Awdurdodau o ran cynllunio.

4 **YR ELFENNAU CRAIDD**

Fel y nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru (2005), bydd y cyfarwyddyd drafft yn cael ei seilio ar y pum elfen sef: arweinyddiaeth; llywodraethu a rheoli; gallu; rheoli perfformiad a gwelliant parhaus; ac e-dân ac achub.

5 **Y PRIF GAMAU**

Y bwriad yw y bydd asesiad cychwynnol gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn arwain at Asesiad Risg ar y Cyd rhwng yr Awdurdod Tân ac Achub a'r rheoleiddwyr, a fydd yn ei dro yn arwain at Gynllun Gwella.

6. **ARGYMHELLIAD**

6.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wneir gan y Cynulliad wrth lunio drafft at ddiben ymgynghori o'r cyfarwyddyd ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella – Awdurdodau Tân ac Achub.